

Canllaw i rieni a gofalwyr ar ddefnyddio'r adnoddau diogelwch sy'n rhan o setiau teledu clyfar a gwasanaethau ffrydio ar alw



Canllaw i rieni a gofalwyr ar ddefnyddio'r adnoddau diogelwch sy'n rhan o setiau teledu clyfar a gwasanaethau ffrydio ar alw

Mae'r cyfuniad o wasanaethau ffrydio ar alw a dyfeisiau cysylltiedig fel setiau teledu clyfar wedi gwneud ystod eang o gynnwys fideo a cherddoriaeth ar gael yn haws. Mae hefyd wedi creu cyfres newydd o risgiau i blant y mae angen i rieni a gofalwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

Beth yw gwasanaethau ffrydio ar alw a setiau teledu clyfar?

Mae gwasanaethau ffrydio ar-lein yn cwmpasu unrhyw gynnwys fideo neu gerddoriaeth y gellir cael mynediad iddo drwy ddyfais all gysylltu â'r rhyngwrwd. Mae gwasanaethau ffrydio fideo poblogaidd yn cynnwys Netflix, Amazon Prime a BBC iPlayer.

Mae setiau teledu clyfar yn gweithio'n debyg iawn i setiau teledu traddodiadol ond bod ganddynt nodweddion ychwanegol hefyd. Mae'r rhain yn galluogi gwylwyr i gysylltu â'r rhyngwrwd a chael mynediad i wasanaethau ffrydio naill ai drwy system weithredu sydd wedi'i llwytho ymlaen llaw neu flwch pen-set ar wahân.

Mae'r erthygl hon yn amlinellu ystyriaethau diogelwch ar gyfer setiau teledu clyfar a gwasanaethau ffrydio ar alw. Efallai y bydd gan ddyfeisiau cysylltiedig eraill, sydd heb eu cynnwys fan hyn, fel ffonau clyfar, tabledi a gliniaduron, ystyriaethau diogelwch tebyg.



Sut gall rhieni a gofalwyr wneud gwasanaethau teledu clyfar neu wasanaethau ar alw yn fwy diogel?

Mae maint ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael drwy wasanaethau ffrydio, a'r ffaith bod y gwylwr yn gallu gwyllo ar unrhyw adeg, yn creu cyfres unigryw o risgiau i blant.

Serch hynny, mae sawl ffordd o ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i gadw plant yn ddiogel rhag cynnwys amhriodol wrth ddefnyddio gwasanaethau ffrydio ar-lein drwy setiau teledu clyfar a dyfeisiau sydd â mynediad i'r rhynggrwyd.

Setiau teledu clyfar

- Defnyddiwch y dewisiadau a gynigir gan eich darparwr band eang i osod cyfyngiadau ar fynediad i fathau penodol o gynnwys.
- Defnyddiwch y dewisiadau ar eich set deledu clyfar i gyfyngu mynediad i blatfformau, apiau neu bori ar y we.
- Defnyddiwch y nodweddion o fewn y gwasanaeth ffrydio ei hun, fel Netflix, i gyfyngu mynediad i fathau penodol o gynnwys.

Dyfeisiau sydd â mynediad i'r rhynggrwyd

- Gall y cyfyngiadau rydych yn eu gosod gynnwys [nodweddion rheoli i rieni](#) (Saesneg yn unig) i gyfyngu ar y math o gynnwys y gall eich plentyn gael mynediad iddo.
- Mae'r [wefan Parent Zone](#) (Saesneg yn unig) yn darparu adolygiad o Netflix sy'n cynnwys crynodeb annibynnol o fanteision ac anfanteision y gwasanaeth ffrydio.
- Mae Common Sense Media hefyd yn adolygu gwasanaethau ar alw ac wedi cynhyrchu [rhestr o apiau fideo sy'n cael eu ffrydio ar gyfer plant a phobl ifanc](#) (Saesneg yn unig) i helpu rhieni a gofalwyr wneud dewis gwybodus.

Oes unrhyw risgiau eraill?

Gan fod setiau teledu clyfar yn defnyddio cysylltiad rhynggrwyd, maen nhw hefyd yn gallu cael eu defnyddio gan gwmnïau trydydd parti hefyd i gynnal gweithgarwch sydd heb ei awdurdodi fel:

- clustfeinio (pan fydd cwmni trydydd parti yn defnyddio eich set deledu clyfar i wrando neu wyllo gweithgarwch o fewn eich cartref)
- casglu data (pan fydd eich arferion gwyllo chi neu arferion eich teulu yn cael eu cofnodi neu eu monitro)
- hysbysebion wedi'u targedu (yn cynnwys anfon hysbysebion penodol sy'n seiliedig ar arferion gwyllo eich teulu).

I rwystro'r math yma o weithgarwch a helpu i ddiogelu data eich teulu, gallwch [ddiffodd y nodweddion casglu data](#) (Saesneg yn unig) ar set deledu clyfar.



Beth i'w ystyried wrth brynu set deledu clyfar

Mae Internet Matters yn darparu cyngor i rieni/gofalwyr sy'n seiliedig ar [bump o brif ystyriaethau](#) (Saesneg yn unig) wrth brynu set deledu clyfar, sef:

- nodweddion rheoli ar gyfer rhieni
- cynnwys
- apiau
- pori'r we
- cysylltu â'r rhyngwyd.

Gallwch hefyd ddarllen [adolygiad Internet Matters o ymarferoldeb a nodweddion diogelwch](#) (Saesneg yn unig) ystod o setiau teledu clyfar, gan gynnwys Apple TV, Amazon Fire TV, Samsung, Philips, Sony, Panasonic a LG.

Ble gall rhiant neu ofalwr ddod o hyd i fwy o wybodaeth am nodweddion diogelwch?

Gan ddibynnu ar frand eich set deledu clyfar neu wasanaeth ffrydio ar alw, efallai y byddwch yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol drwy chwilio ar-lein am y termau 'nodweddion diogelwch', 'cyfyngiadau' a/neu 'nodweddion rheoli ar gyfer rhieni'.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, ewch i Ganolfan Ddiogelwch y ddyfais neu'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae'n ymddangos bod yr holl sefydliadau amddiffyn plant yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr erthygl hon yn cytuno ar un peth: gall ffrydio ar alw i setiau teledu clyfar a dyfeisiau eraill fod yn ddifyr ar gyfer eich teulu, ond mae'n rhaid i rieni a gofalwyr roi'r nodweddion diogelwch priodol a'r nodweddion rheoli ar waith er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rhag cynnwys amhriodol.

